Prifysgol Bangor

YSGOL ASTUDIAETHAU TRWY'R GYMRAEG

Dyddiad : 27 Ionawr 2010

Presennol : Dr. Llion Jones (Cadeirydd), Dr. Andrew Davies, Dr. Eryl Wyn Davies, Mr. Geraint George, Mr. Ifor Gruffudd, Dr. Lowri Hughes, Mrs. Bethan Wyn Jones, Miss Eirian Jones, Dr. Gwyn Lewis, Dr. Eifiona Thomas Lane, Ms. Pauline Loftus, Dr. Ioan Matthews, Yr Athro Densil Morgan, Mr. Alan Wyn Parry, Dr. Arne Pommerenning, Dr. Robert Pope, Dr. Paula Roberts, Dr. Pwyll ap Sion, Yr Athro Deri Tomos, Dr. Catrin Haf Williams, Mr. Emyr Roberts (Ysgrifennydd).

Ymddiheuriadau: Dr. Jason Walford Davies, Dr. Peredur Davies, Mr. Huw Ellis, Dr. Keith Hughes, Mr. Aled Griffiths, Mr. Dewi Jones, Miss Sioned Medi Jones, Dr. Delyth Morris, Mrs. Delyth Murphy, Dr. Sara Parry, Dr. Enlli Môn Thomas, Yr Athro Gerwyn Wiliams,Dr. Prysor Williams, Miss Sharyn Williams.

1. CROESO

Croesawodd y Cadeirydd Mrs Pauline Loftus i'w chyfarfod cyntaf o'r Ysgol.

2. GWERDDON

1. Croesawodd y Cadeirydd Dr Hefin Jones, Prifysgol Caerdydd a Chadeirydd y Bwrdd Golygyddol a Dr Gethin Rhys, Prifysgol Aberystwyth a Chynorthwyydd Golygyddol i roi cyflwyniad ar y cyfnodolyn Cymraeg academaidd 'Gwerddon'.

   Eglurodd Dr Jones mai'r cyfarfod yma oedd y cyntaf mewn nifer o gyflwyniadau i sefydliadau addysg uwch Cymru i hybu diddordeb yn y cyfnodolyn. E-gyfnodolyn yw Gwerddon ac fe'i cyhoeddwyd gyntaf yn Ebrill 2007. Bellach mae rhifyn 5 wedi'u cyhoeddi.

   Amcan y gwaith yw cyhoeddi ymchwil ysgolheigaidd yn y Gwyddorau, y Celfyddydau a'r Dyniaethau ac mae'n cynnwys erthyglau ar ystod eang o bynciau. Mewn cyfnod o gynnydd yn y maes addysg cyfrwng Cymraeg, mae'n bwysig hybu'r defnydd o Gymraeg fel cyfrwng ymchwil. Mae'n ehangu y cyfleoedd i drafod, rhannu gwybodaeth a chyhoeddi yn y Gymraeg.

   Sefydlwyd Bwrdd Golygyddol 15 o bobl gydag aelodau newydd yn disodi aelodau a ddaeth i ddiwedd eu tymor bob blwyddyn. Cyhoeddir ar y we

ddwywaith y flwyddyn ac mae'n gydnaws ag anghenion yr Ymarfer Asesu Ymchwil.

2. Nododd Dr Rhys eu bod wedi edrych ar y defnydd o'r wefan a chafwyd oddeutu 10,000 o ergydion gan 2,300 unigolyn.

   Cyfeiriad y wefan yw http:/www.gwerddon.org

3. Cafodd yr aelodau wedyn gyfle i roi sylwadau neu ofyn cwestiynau a nodwyd y pwyntiau a ganlyn.

   3.1 Nid yw'n angenrheidiol i erthyglau fod ar faterion Cymraeg neu Gymreig.

   3.2 Nid yw'n bosib ar hyn o bryd chwilio fesul maes, ond y bwriad yw ychwanegu'r nodwedd honno.

   3.3 Cwestiwn hanfodol yn y dyfodol yw a fydd yr Ymarfer Asesu Ymchwil neu yn ddiweddarach yr **REF** yn cydnabod yr erthyglau. Cynhelir nifer o gyfarfodydd gyda'r paneli perthnasol i drafod hyn.

   3.4 Ni ddylid cyhoeddi erghyglau sydd wedi'u cyhoeddi eisoes, ond gellir cyhoeddi cyfieithiadau.

   3.5 Bydd yn bosib cyhoeddi erthygl a oedd wedi ymddangos o'r blaen mewn cyfnodolyn fel 'Y Naturiaethwr'.

   3.6 Gofynwyd i unigolion ystyried cyfranu erthyglau i'r rhifynnau nesaf.

   3.7 Efallai y cynhelir cynadleddau a hefyd cyhoeddi rhifynau arbennig gyda 4-6 erthygl ar bwnc penodol.

   3.8 Disgwylir i erthygl gael ei chyhoeddi rhyw 6 mis ar ôl ei chyflwyno.

4. Diolchodd y Cadeirydd i'r Dr Jones a Dr Rhys am eu cyflwyniad gwerthfawr a nododd bod datblygiad o'r fath yn gwbl hanfodol i hygrededd addysg uwch cyfrwng Cymraeg.

3. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod o'r Ysgol a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2009 fel cofnod cywir.

4. MATERION YN CODI

(i) Eitem 4 Neuadd John Morris Jones

Bydd y neuadd yn symud ym Medi i adeiladau Tegfan a Bryn Dinas ar safle'r Ffriddoedd. Fe'u gelwir yn JMJ 1 a JMJ 2 ac mae'r wefan wedi'i hagor ar gyfer gwneud cais am lety. Gobeithir creu cymdeithas fywiog a deniadol o fewn y neuadd newydd. Ar ddiwrnodau agored bydd darpar fyfyrwyr yn cael eu tywys o gwmpas y neuaddau newydd o hyn allan.

Nodwyd ei bod yn holl bwysig hefyd bod myfyrwyr 2il a 3edd blwyddyn yn cael cyfle i fynd i'r neuadd newydd. Cytunwyd bod y cadeirydd yn ysgrifennu at yr IG yn gofyn am sicrwydd y bydd lle i ddychwelwyr yn y neuaddau newydd **(Gweithredu LIJ)**.

(ii) Eitem 5 Bwrsariaethau

Nodwyd bod angen atgoffa'r Is-Ganghellor i archwilio'r posibliadau o gynnig bwrsariaethau cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr ôl-radd (**Gweithredu ER**).

5. ADRODDIAD TASIG

Cyflwynwyd crynodeb gan y Cadeirydd o drafodaethau Grŵp Tasg Strategaeth yr Iaith Gymraeg yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2010.

Adolygiad Academaidd

Ymhelaethodd yr Is-Ganghellor ar gynnwys y llythyr diweddar a anfonwyd at staff a myfyrwyr ynghylch yr Adolygiad Academaidd. Wrth amlinellu'r amgylchiadau heriol a oedd yn wynebu'r sector, pwysleisiodd nad oedd unrhyw beth wedi'i benderfynu nac unrhyw gynigion wedi'u gwneud. Nododd na fyddai unrhyw gynigion yn cael eu cyflwyno bellach hyd nes y penodir Is-Ganghellor newydd. Codwyd nifer o gwestiynau gan yr aelodau, ac yn ystod y drafodaeth, cytunwyd y dylid cynnal awdit llawn o effaith unrhyw gynigion yn y dyfodol ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a rôl arweiniol Prifysgol Bangor fel prif ddarparwr addysg uwch trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn y cyswllt hwnnw, nodwyd bod angen i TASIG sicrhau mewnbwn clir i brosesau'r Adolygiad Academaidd.

Roedd aelodau'r Ysgol o'r farn y dylid ymgyrchu y gorau y medrir i sicrhau bod y Gymraeg yn ganolog i weithgareddau a bywyd y Brifysgol. Dylai'r Ysgol gael y cyfle i gyfrannu tuag at unrhyw benderfyniad a dylai chwarae rôl flaenllaw. Bydd penodiad yr Is-Ganghellor newydd yn allweddol bwysig.

Ysgoloriaethau a Chymrodoriaethau 2010/11

Adroddwyd bod dwy ysgoloriaeth PhD (Gwyddorau Chwaraeon ac Addysg) ac un Gymrodoriaeth (Secioleg) wedi'u dyfarnu i'r Brifysgol ar gyfer 2010/11. Fe fydd dwy ysgoloriaeth PhD a ddyfarnwyd y llynedd (Sgriptio a Hanes) hefyd yn cychwyn o'r newydd ym mis Hydref 2010. Ar gyfer 2010/11 felly, bydd

cyfanswm o 18 o ddeiliad ysgoloriaethau a 6 cymrawd yn cyfrannu at ddatblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym Mangor.
CALLau Cyfrwng Cymraeg 5 mlynedd

Dosbarthwyd a thrafodwyd taenlen yn amlinellu'r Baich Dysgu Cyfwerth ag Amser Llawn (CALI) cyfrwng Cymraeg ym Mhrifysgol Bangor dros y pum mlynedd diwethaf. Wrth nodi rhai datblygiadau calonogol mewn meysydd newydd, cytunwyd bod clwstwr cymharol fychan o feysydd yn parhau i fod yn greiddiol i ffyniant y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym Mangor.

Arolwg Boddhad Myfyrwyr

Trafodwyd papur yn tynnu sylw at y ffaith nad oedd unrhyw fodd bellach o fesur barn myfyrwyr Bangor ynglŷn â'r ddarpariaeth academaidd cyfrwng Cymraeg na gwasanaethau dwyieithog y Brifysgol. Gan nad yw'r Brifysgol yn gweinyddu holiadur mewnol bellach, cytunwyd y dylid gofyn i'r Grŵp Tasg Dysgu ac Addysgu ychwanegu cwestiynau perthnasol pan fyddant yn treialu'r holiadur cenedlaethol gyda myfyrwyr yr ail flwyddyn. Cytunwyd hefyd i roi pwysau ar Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i ystyried ychwanegu cwestiynau i'r un perwyl ar yr holiadur cenedlaethol (NSS).

Diweddariad o'r Cynlluniau Cenedlaethol – Dr Ioan Matthews

Adroddwyd bod y gwaith o sefydlu corff llywodraethol cysgodol ar gyfer y Coleg Cymraeg Ffederal wedi'i roi yng ngofal Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Awgrymwyd y byddai'r corff yn cyfarfod am y tro cyntaf cyn y Pasg ac y byddai'r arian ychwanegol a addawyd ar gael ar gyfer y flwyddyn academaidd 2011/12. Yn y cyfamser, nodwyd bod angen sicrhau parhad nifer o ddatblygiadau a phrojectau arwyddocaol.

Llawlyfr Modiwlau Blynyddoedd 2/3 (2010/11)

Cytunwyd i gynhyrchu'r llawlyfr hwn unwaith eto ar gyfer y cyfnod cyn-gofrestru.
(Gweithredu: Canolfan Bedwyr)

6. PROJECTAU CYFREDOL/TREFN DDYFARNU GRANTIAU CAUCC

Cyflwynwyd er gwybodaeth adroddiadau yn amlinellu'r Projectau ym Mangor a ariannwyd gan y Gronfa Genedlaethol Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg rhwng 2007-10 ynghyd â chylchlythyr y GAUCC yn egluro'i drefn dyfarnu grantiau ar gyfer 2010-11.

Nodwyd bod angen sicrhau bod y wybodaeth am y grantiau yn cael eu bwydo i'r taenlenni sy'n cael eu cyflwyno i'r Senedd (**Gweithredu: LLJ**).

7. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir cyfarfod nesaf yr Ysgol am 2.15 pm, dydd Llun, 19 Ebrill 2010 yn Siambr y Cyngor.